**Fforwm Cymunedau Ffydd**

**Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd**

**11:00-12:00 ar 22 May 2019**

**Cofnodion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford AC, Prif Weinidog | Cadeirydd |
| Jane Hutt AC, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip | Dirprwy Gadeirydd |
| Aled Edwards | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Gethin Rhys | Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Rheinallt Thomas | Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru |
| Viv Bartlett | Cyngor Bahá'í Cymru |
| Christine Abbas | Cyngor Bahá'í Cymru |
| Naran Patel | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Radhika Kadaba | Cyngor Hindwiaid Cymru |
| Nor'dzin Pamo | Cyngor Bwdaidd Cymru |
| Taikya David Morgan | Cyngor Bwdaidd Cymru a Chadeirydd y Cyngor Rhyng-ffydd |
| Lawrence Kahn | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |
| Melody Odey | Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru |
| Saleem Kidwai | Cyngor Mwslimiaid Cymru |
| Joga Singh | Cyngor Cymru Sikh |
| Gurmit Singh Randhawa | Cyngor Cymru Sikh |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| John Davies | Archesgob Cymru (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| Philip Manghan | Yn cynrychioli Archesgob Caerdydd |
| Sam Pritchard | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Sian Rees | Cynghrair Efengylaidd Cymru |
| Dr Meraj Hasan | Cyngor Mwslimiaid Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru:**

Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymunedau
Uzo Iwobi, Ymgynghorydd Arbennig ar gyfer Cyfathrebu Strategol.
Paul Dear, Pennaeth y Tîm Cydraddoldeb
John Davies, Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Bal Gill, Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Lloyd Hopkin, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Kerry Davies, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

## Croeso a chyflwyno

Croesawodd y Prif Weinidog (PW) bawb i gyfarfod cyntaf y Fforwm Ffydd yn 2019. Dyma'r tro cyntaf iddo ef a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (DMCW) fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Fforwm Ffydd yn eu rolau newydd. Croesawodd y PW

aelod newydd hefyd: Meraj Hasan o Gyngor Mwslimiaid Cymru. Ymddiheurodd Saleem Kidwai ar ran Meraj gan ei fod yn feddyg. Roedd ar alwad ar y pryd, felly nid oedd yn gallu dod.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r pwyntiau gweithredu o 5 Tachwedd**

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r pwyntiau gweithredu eu dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd ar gywirdeb y naill beth a'r llall.

**Materion yn codi**

**Taith Gerdded Ffydd 2018 –** Darparodd Arweinydd blaenorol y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC, gyllid ar gyfer y digwyddiad rhyng-ffydd, 'Cyd-gerdded gyda'n Cymuned'. Dywedodd aelodau o'r fforwm fod y Daith Gerdded Ffydd, a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Ryng-ffydd 2018, yn llwyddiannus iawn ac yn ddathliad cadarnhaol o'r Wythnos Ryng-ffydd.

**Hawliau Dynol yng Nghymru –** Bydd y Cyngor Rhyng-ffydd yn gwahodd Dr Simon Hoffman i'w gyfarfod nesaf i gael trafodaethau pellach ar gydweithio.

**Cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches** – Rhoddodd John Davies (Llywodraeth Cymru) ddiweddariad o ran y Cynllun. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Cyhoeddwyd Cynllun y Genedl Noddfa.
- Gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddatganiad mewn perthynas â'r Cynllun ar 29 Ionawr 2019.
- Mae'r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner.
- Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys ymrwymiadau cyffredinol yn ogystal â chamau gweithredu penodol.
- Mae Llywodraeth Cymru am weithio gyda chymunedau ffydd i nodi a chysoni meysydd allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bwrw ymlaen â nhw.

Ychwanegodd Aled Edwards mai pleser oedd gweld pan nodwyd ugain mlynedd o ddatganoli, adroddodd newyddion NBC ar y stori hon yn ogystal â thynnu sylw at Gynllun y Genedl Noddfa. Mae hyn yn galonogol iawn er bod mwy o waith i'w wneud.

Cyfeiriodd y DMCW at Ddarlith Gethin Abraham-Williams a gyflwynwyd gan Aled Edwards ar 20 Mai yn y Senedd, a grybwyllodd y materion hyn hefyd. Mae'r DMCW am sicrhau ymateb trawsbleidiol i'r cynllun ac mae wedi ysgrifennu at y Gweinidogion yn ogystal â'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd i ofyn pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd.

Bydd y DMCW yn darparu diweddariad yn y Cyfarfod Llawn yn ystod Wythnos Ffoaduriaid 2019 (17 – 23 Mehefin) ddydd Mawrth 18 Mehefin.

Dywedodd y PW fod cyhoeddi'r Cynllun yn ddatganiad pwysig iawn o safbwynt Llywodraeth Cymru. Mae'n galonogol iawn bod y Cynllun yn adlewyrchu cyfle cyfartal i bawb ac yn tynnu sylw at Gymru fel lle y gall pobl fyw a ffynnu ynddo. Gofynnodd i aelodau'r Fforwm am eu cefnogaeth i gyflawni'r Cynllun.

**Eitem 1 - Cwricwlwm Newydd - Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Darparodd Lloyd Hopkin ddiweddariad o ran y cwricwlwm newydd, a fu'n destun ymgynghoriad ers diwedd mis Ebrill 2019.

Cyhoeddwyd ***Dyfodol Llwyddiannus***, adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, ym mis Chwefror 2015 a derbyniwyd pob un o'r 68 o argymhellion.

Yna sefydlwyd rhwydwaith arloesol o ysgolion sydd wrth wraidd datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'r ysgolion hyn yn dod o bob rhan o Gymru, gan gynnwys lleoliadau gwledig a threfol; ysgolion dwyieithog, Saesneg a Chymraeg; ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig, ysgolion â chymeriad crefyddol ac ysgolion o feintiau amrywiol.

Mae'r ysgolion hyn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol megis y consortia rhanbarthol, Estyn, y sector addysg bellach, arbenigwyr cynllunwyr cwricwlwm ac arbenigwyr ar bynciau penodol i ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Wrth wraidd y cwricwlwm newydd mae ei bedwar diben, h.y. cefnogi dysgwyr i ddatblygu fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu ar hyd eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Y pedwar diben yw'r man cychwyn ar gyfer pob trafodaeth am y ffordd y caiff y cwricwlwm newydd i Gymru ei gynllunio. Trefnir y cwricwlwm newydd yn unol â 6 Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh):

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Llesiant
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod materion sensitif o ran Addysg Rhyw a Chydberthynas ar gyfer nifer o gymunedau gwahanol ac mae'r Gweinidog Addysg yn ymrwymedig i drafodaethau a fydd yn ymchwilio i'r materion hyn yn agored ac yn adeiladol.

Y bwriad yw y bydd adeiladu ar y cyd a chyfrannu yn rhan o'r broses hon. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ledled Cymru. Mae digwyddiad wedi'i gydgysylltu ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau ffydd. Fe'i cynhelir **ddydd Mawrth 25 Mehefin**.

- Gofynnodd Lloyd a oedd aelodau'r fforwm yn fodlon bod eu manylion cyswllt yn cael eu hanfon at gydweithwyr yn y sector Addysg er mwyn i ragor o wybodaeth gael ei dosbarthu. Roedd aelodau'r fforwm yn fodlon ar hyn.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd Bal Gill yn anfon manylion cyswllt aelodau'r fforwm at Lloyd Hopkin.

Gwahoddir adborth tan 19 Gorffennaf a bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu terfynol ar gael ym mis Ionawr 2020.

Bydd addysgu'r holl grwpiau blwyddyn o'r ysgol gynradd i Flwyddyn 7 yn dechrau am y tro cyntaf ym mis Medi 2020 a chaiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno flwyddyn ar ôl blwyddyn o hynny ymlaen.

Cadarnhaodd y PW y neges hon drwy ddatgan bod cyfres o gyfleoedd ar gael i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru o ran yr ymgynghoriad ac mae'r Gweinidog Addysg yn awyddus iawn i drafod ag amrywiaeth eang o gymunedau.

Cafodd yr aelodau'r cyfle i ofyn cwestiynau/cynnig sylwadau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Roedd pryder o ran cyflwyno'r cwricwlwm hwn yn gyson ymhob ysgol ac effaith bosibl hynny ar berfformiad mewn arholiadau. Roedd yn hanfodol nodi unrhyw fylchau er mwyn sicrhau cyfle cyfartal yn ystod arholiadau.
- Roedd hyfforddi athrawon yn agwedd bwysig iawn o ran y cwricwlwm newydd ac roedd awydd i'r dull o addysgu'r maes penodol hwn fod yn addysgol yn hytrach nag yn emosiynol.
- Roedd pryder y gallai'r dull hwn orlwytho athrawon. Hynny yw, newid o beidio â chael unrhyw ryddid o ran yr hyn a gaiff ei addysgu i ryddid llwyr – bydd angen mynd i'r afael â hyn. Crybwyllwyd hyfforddiant eto fel adnodd hanfodol ar gyfer athrawon a myfyrwyr.
- Gan fyfyrio ar y protestiadau presennol yn Birmingham, gofynnodd aelod a oedd gwahaniaethau rhwng ysgolion yng Nghymru a Lloegr a'r hyn a fyddai'n cael ei addysgu.

Cynigiodd Lloyd yr ymatebion canlynol:

- Mae cysondeb yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm newydd ac mae canllawiau statudol y bydd angen i athrawon eu hystyried. Mae angen rhoi rhesymau da dros beidio â gwneud hyn.

- O ran atebolrwydd a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol – mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i ddatblygu cymwysterau a fydd yn adeiladu ar hyn.
- Mae dysgu proffesiynol yn bwysig iawn – mae nifer o ysgolion yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru o ran darparu ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan edrych yn benodol ar y goblygiadau.
- Addysg Rhyw a Chydberthynas – nid yw'r pwnc mor benodol ag ydyw yn Lloegr. Darperir rhestr fanwl iawn o'r hyn sydd i'w addysgu yn Lloegr ond yng Nghymru amlinellir yr egwyddorion cyffredinol a manylir arnynt ar lefel sylfaenol. Ni fanylir ar destunau penodol; yn hytrach na hynny, rhaid i weithwyr proffesiynol ddefnyddio eu synnwyr cyffredin ynghylch y cyd-destun lle addysgir y testunau hyn.
- Cyfeirir at Ganllawiau Technegol UNESCO ar Addysg Rhyw a Chydberthynas wrth ddatblygu'r canllawiau ac mae swyddogion Addysg yn awyddus i ymchwilio ymhellach i'r dull gweithredu hwn yn y digwyddiad ar 25 Mehefin.

Dywedodd y PW fod yr ymgynghoriad yn cynnig y cyfle i gwestiynau gael eu gofyn ond hefyd i geisio barn rhieni yn ogystal â gweithwyr addysgu proffesiynol o ran y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r cwricwlwm newydd.

Dywedodd yr aelodau fod angen edrych ar sut i gynnal trafodaethau adeiladol am y materion hyn. Gallai hyn ystyried ysbryd gwaith partneriaeth fel y'i dangosir yn y Fforwm. Gallai'r aelodau edrych ar y ffordd y gallent gefnogi ei gilydd wrth gynnal y sgyrsiau hyn. Byddai'n drueni pe bai pobl yn teimlo bod rhaid iddynt 'optio allan' o rai agweddau ar y system oherwydd nad oedd y sgyrsiau hyn wedi cael eu cynnal. Felly, mae angen ystyried ymhellach y ffordd y gall yr aelodau gynnig y cymorth hwnnw i'w gilydd.

## **Eitem 2 - Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb sy'n ymwneud â Ffydd**

Dywedodd y PW ei fod ef a'r DMCW wedi ymweld â mosgiau a rhannu negeseuon o undod â chymunedau Mwslimaidd yn dilyn yr ymosodiadau yn gynharach eleni yn Christchurch. Rhoddodd y diweddaraf ar nifer o bynciau cysylltiedig:

### *i. Mynd i'r afael â Gwrthsemitiaeth*

Siaradodd swyddogion o Lywodraeth Cymru ag Ymddiriedolaeth Cofio'r Holocost ar 9 Ebrill ynghylch Diwrnod Cofio'r Holocost, yn enwedig y cynlluniau i nodi 75 mlynedd y flwyddyn nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu prosiect 'Gwersi o Auschwitz' Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocost, lle mae myfyrwyr ysgol a swyddogion o Lywodraeth Cymru yn teithio i Wlad Pwyl i ddysgu am yr erchyllter a'i ganlyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig £360,000 yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf i gynyddu gallu ei Chanolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb yn

sgil pryderon y gallant weld cynnydd arall o ran troseddau casineb wrth i ni adael yr UE.

Mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiadau agos hefyd â Labordy Data Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, sydd wedi datblygu "dangosfwrdd" arloesol a all fonitro enghreifftiau o gasineb ar-lein. Mae hwn bellach yn cael ei dreialu yn Hwb Troseddau Casineb Cenedlaethol y DU, ac yn cynnwys ffordd o ddatgelu enghreifftiau o gasineb gwrthsemitaidd.

Bu cyflwyniad gan uwch-swyddogion yr heddlu mewn cyfarfod diweddar o'r Cabinet lle tynnwyd sylw at y ffaith mai bygythiad terfysgaeth gan eithafwyr adain dde oedd y bygythiad cyfoes mwyaf yng Nghymru.

### *ii. Cyfarfod y Prif Weinidog â Bwrdd Cynrychiolwyr Iddewon Prydain*

Cyfarfu'r Prif Weinidog â chynrychiolwyr o Fwrdd Cynrychiolwyr Iddewon Prydain ar 21 Mawrth. Yn ystod y cyfarfod hwn, cadarnhaodd wrthwynebiad llwyr Llywodraeth Cymru i Wrth-Semitiaeth a'i hymrwymiad i amddiffyn rhyddid crefydd a gweithio'n agos gyda phobl o bob ffydd. Cytunodd y PW i noddi arddangosfa yn y Senedd yn 2020 yn ymwneud â bod yn Iddew yn y DU; mae hon yn cael ei datblygu. Trafodwyd datganiad am ddull Llywodraeth Cymru o wahaniaethu rhwng beirniadaeth o Lywodraeth Israel a Gwladwriaeth Israel hefyd.

### *iii. Mabwysiadu Diffiniad o Islamoffobia*

Dywedodd y PW fod diffiniad arfaethedig nad oedd yn gyfrwymol yn gyfreithiol wedi cael ei wrthod gan Lywodraeth y DU, ond fe'i mabwysiadwyd gan y Blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Geidwadol yr Alban.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â Llywodraeth yr Alban sut gellid mabwysiadu hwn ar y cyd.

### *iv. Diweddariad ar y cyfarfod ag Ymddiriedolaeth Jo Cox*

Cyfarfu'r PW, y DMCW a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol â Kim Leadbetter a Jonathan Harty o Ymddiriedolaeth Jo Cox yn ddiweddar i drafod gwaith *Great Get Together* yng Nghymru.

Roedd ymateb brwdfrydig cymunedau yng Nghymru i her y llynedd yn destun calondid i'r gweinidogion a bydd y swyddogion yn cadw mewn cysylltiad â'r sefydliad er mwyn gweld sut gall Llywodraeth Cymru helpu'r mudiad i ddatblygu yn y dyfodol agos.

Roedd Kim yn gallu rhannu straeon cadarnhaol am bobl o gymunedau ffydd gwahanol yn dod at ei gilydd drwy chwaraeon a phartïon stryd. Prif neges *Great Get Together*, sef bod 'Mwy yn Gyffredin' rhyngom, yn cyd-fynd â gwaith y Fforwm Cymunedau Ffydd. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn falch o gefnogi cyfraniad gan y cymunedau sy'n cael eu cynrychioli yn y Fforwm.

Dywedodd aelodau o'r Fforwm y caiff cân Jo Cox ei pherfformio gan y Côr Rhyng-ffydd yn ystod Wythnos Ryng-ffydd 2019.

Cynhaliwyd trafodaeth hefyd a oedd yn ymwneud ag adrodd am droseddau casineb, gan ystyried Islamoffobia yn benodol. Dywedodd aelodau o Gyngor Cymru Sikh fod adrodd am droseddau casineb gan aelodau o'r gymuned Sicaidd wedi achosi problemau am fod yr heddlu yn cofnodi'r digwyddiadau hyn dan Islamoffobia. Yma y teimlad oedd ei bod yn amlwg bod angen hyfforddiant a dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau ffydd hyn.

Dywedodd y PW ei fod yn cyfarfod â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru ddwywaith y flwyddyn – bydd yn defnyddio'r cyfarfod nesaf fel cyfle i gyfleu'r neges hon iddynt. Dywedodd y DMCW y byddai hefyd yn rhannu hyn â'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb.

Awgrymodd un aelod o'r fforwm nad Islamoffobia yn benodol oedd y broblem ond 'casineb at grefydd'.

Dywedodd Aled Edwards mai heddwch ac ewyllys da yw neges yr Urdd eleni.

Bydd ffocws hefyd ar droseddau casineb a throseddau â chyllyll – lansiwyd y fenter hon yn ochr ddwyreiniol Llundain, sef yr ardal sydd â'r lefelau uchaf o droseddau â chyllyll. Bydd cynrychiolwyr o'r fenter yn ymweld â'r Urdd ddydd Mercher nesaf (29) i rannu neges o undod.

Dywedodd un aelod o'r fforwm fod angen i ni ystyried lle caiff hadau rhagfarn a chasineb eu plannu. Cyfeiriodd at lyfr Joan Smith *'Home Grown: How Domestic Violence Turns Men Into Terrorists'* sy'n ystyried y syniad bod pobl sy'n euog o weithredoedd terfysgaeth yn aml wedi bod yn cam-drin yn y cartref. Mae angen ymchwilio i hyn ac ystyried yr hyn y gallwn ei wneud fel cymdeithas i sicrhau na chaiff ei guddio.

Dywedodd y PW ei fod ef a'r DMCW wedi mynd i ginio Cyngor Mwslimiaid Cyngor yn gynharach yn y flwyddyn lle roedd pobl o ffydd wahanol yn bresennol. Dywedodd siaradwr o Wlad yr Iorddonen fod hyn yn anghyffredin iawn gan y byddai bron yn amhosibl dod â phobl o ffydd wahanol at ei gilydd o dan un to mewn lleoedd eraill.

### *v. Cynllun Mannau Addoli y Swyddfa Gartref*

Dywedodd y PW fod swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi bod mewn cyswllt rheolaidd â heddluoedd Cymru ynghylch cynyddu'r patrolau ger mannau addoli a monitro unrhyw gynnydd o ran troseddau casineb.

Dywedodd hefyd fod swyddogion wedi dosbarthu gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref ynghylch cyflwyno ceisiadau i'r Cynllun Diogelwch Mannau Addoli.

Anogodd y Prif Weinidog aelodau'r Fforwm i rannu hon â'u rhwydweithiau. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i wybodaeth am y cynllun hwn gael ei rhannu ym mhobman.

**Eitem 3 - Negeseuon Cadarnhaol Cydgysylltiedig Grwpiau Ffydd am Brexit**

Dywedodd Aled fod 3 chyfarfod wedi'u cynnal hyd yn hyn rhwng Llywodraeth Cymru ac aelodau o grwpiau ffydd. Y diben yw sicrhau bod dull o roi negeseuon allweddol at ei gilydd yn gyflym ar gael petai trychineb yn digwydd.

Hoffai Aled ddiolch i Paul a'i dîm am roi hwn at ei gilydd.

Nododd Paul mai barn gyffredin y grŵp oedd y byddai unrhyw beth a wneir yn fwy effeithiol petai'n cael ei wneud yn enw'r Fforwm Cymunedau Ffydd. Cytunodd yr aelodau i gefnogi'r dull gweithredu hwn.

**Unrhyw Fusnes Arall**

**Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol**

Dywedodd Paul Dear wrth yr aelodau fod Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru yn agored i geisiadau gan grwpiau ffydd i ddatblygu safleoedd fel cyfleusterau cymunedol. Dywedodd fod llawer o eglwysi a chapeli wedi cael eu cefnogi gan y Gronfa dros flynyddoedd lawer, ond mae llawer llai o geisiadau wedi dod i law gan sefydliadau ffydd eraill. Mae gan y DMCW gyfrifoldeb portffolio am y Gronfa ac mae'n awyddus i annog ceisiadau gan grwpiau ffydd eraill.

Mae'r rhaglen yn cynnig grantiau ar ddwy lefel: hyd at £25,000 ar gyfer prosiectau bach a hyd at £250,000 ar gyfer prosiectau mwy o faint. Rhaid i bob ymgeisydd i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ddarparu tystiolaeth bod ei gymuned leol wedi cymryd rhan wrth ddatblygu'r cynigion.

Mae'r rhaglen yn agored i grwpiau cymunedol a grwpiau'r sector gwirfoddol sy'n berchen ar gyfleuster neu'n gweithredu cyfleuster sydd ei angen ac sy'n cael ei ddefnyddio'n dda gan y gymuned y mae'n ei wasanaethu. Mae croeso i grwpiau ffydd gyflwyno cais ar yr amod bod eu cyfleusterau yn agored i'r gymuned ehangach y tu hwnt i'w haelodaeth eu hunain.

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gweithredu ar raglen dreigl sy'n golygu y gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg. Mae gan y rhaglen gyllideb tan ddiwedd tymor presennol y Cynulliad, sef mis Mawrth 2021.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a ffurflenni cais yn: https://llyw.cymru/rhaglen-cyfleusterau-cymunedol

**Digwyddiadau yr Wythnos Ryng-ffydd**

Yn dilyn llwyddiant digwyddiad yr Wythnos Ryng-ffydd y llynedd gyda thaith gerdded dan olau llusernau drwy Gaerdydd, digwyddiad a phryd o fwyd gyda'r hwyr, mae cynlluniau tebyg ar y gweill ar gyfer mis Tachwedd eleni.

Mae'r Cyngor Rhyng-ffydd wedi holi am gyllid a bydd swyddogion yn barod i ystyried ceisiadau pan fydd manylion mwy penodol ar gael.

**Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

Gofynnodd y PW i'r aelodau a oeddent yn fodlon neilltuo awr a hanner ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn hytrach na hanner awr gan y byddai hyn yn cynnig cyfle i'r holl aelodau gyfrannu a gwrando ar gyfraniadau pobl eraill.

Gwnaeth yr aelodau groesawu'r cais hwn a chytuno arno.

Cau

## CAMAU GWEITHREDU

| CAM GWEITHREDU | I'W GWBLHAU GAN: |
|---|---|
| **Cwricwlwm Newydd** – Manylion cyswllt aelodau'r fforwm i'w rhannu â Lloyd Hopkin parthed: digwyddiad ymgynghori ar y cwricwlwm sy'n ymwneud yn benodol â ffydd ar 25 Mehefin 2019 | Ysgrifenyddiaeth |
| **Cofnodi Troseddau Casineb** – achosion o adrodd ar gam am droseddau casineb i'w rhannu mewn cyfarfod o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru Gyfan a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan ar gyfer Troseddau Casineb. | Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb |
| Rhagor o Wybodaeth parthed: **Llyfr Home Grown gan Joan Smith** i'w rhannu ag aelodau'r fforwm | Ysgrifenyddiaeth |
| Dosbarthu gwybodaeth o ran cael gafael ar gyllid drwy **Gronfa Mannau Addoli y Swyddfa Gartref** | Ysgrifenyddiaeth |
| Dosbarthu rhagor o wybodaeth i aelodau'r Fforwm parthed: **Cyfleusterau Cymunedol** | Ysgrifenyddiaeth |
| Ymestyn cyfarfodydd yn y dyfodol i awr a hanner | Ysgrifenyddiaeth |